# Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010

**2010 mccc 2**

**7 Penderfyniadau sy'n ymwneud â gallu i dalu**

(1) Pan fo awdurdod lleol wedi asesu modd person o dan adran 5(1), rhaid i'r awdurdod, yng ngoleuni'r asesiad hwnnw—

(a) penderfynu a yw'n rhesymol ymarferol i'r person dalu'r ffi safonol am y gwasanaeth a gynigiwyd i'r person neu a ddarperir iddo; a

(b) os yw'r awdurdod yn penderfynu nad yw'n rhesymol ymarferol i'r person dalu'r ffi safonol, penderfynu'r swm (os oes un) y mae'n rhesymol ymarferol i'r person ei dalu am y gwasanaeth hwnnw.

(2) Rhaid i awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1) yn unol â darpariaeth mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(3) Mae'r ddarpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau o dan is-adran (2) yn cynnwys darpariaeth (ond nid yw'n gyfyngedig i hynny) sy'n—

(a) pennu achosion pan na fo'n rhesymol ymarferol i bersonau ac iddynt fodd penodedig, neu ac iddynt fodd sy'n dod o fewn ystod benodedig, dalu am wasanaeth penodol, neu gyfuniad o wasanaethau penodol;

(b) pennu'r uchafswm sy'n rhesymol ymarferol i bersonau ac iddynt fodd penodedig, neu ac iddynt fodd sy'n dod o fewn ystod benodedig, dalu am wasanaeth penodol, neu gyfuniad o wasanaethau penodol;

(c) pennu symiau y mae'n rhaid i'r awdurdod lleol eu diystyru wrth asesu modd person;

(d) pennu symiau islaw iddynt y mae'n rhaid peidio â gostwng incwm nac asedau person (ar ôl talu'r ffi sydd i'w gosod).

(4) Yn is-adran (1) ac adran 10 ystyr “ffi safonol” yw'r swm y byddai'n ofynnol i berson ei dalu am wasanaeth pe na bai effaith i benderfyniad o dan y Mesur hwn a oedd yn ymwneud â gallu person i dalu.